

Centre for Alternative Technology Canolfan y Dechnoleg Amgen

ATEBION I'R DAFLEN WAITH AR GLUDIANT

Ewch am dro i **STRYD DWY DROED**.

Cerddwch o gwmpas Stryd Dwy Droed ac edrychwch ar y byrddau arddangos. Yna, atebwch y cwestiynau isod.

Mae cludiant yn wirioneddol bwysig. Mae ei angen i fynd o le i le, i fynd i'r ysgol a'r siopau. Rydym hefyd yn hoffi mynd ar wyliau. Y broblem yw bod ceir ac awyrennau'n defnyddio llawer iawn o danwydd ffosiledig ar ffurf petrol, diesel ac olew. Mae hyn yn cynhyrchu llawer iawn o lygredd a charbon deuocsid. Mae'r nwyon hyn yn ychwanegu at effaith y tŷ gwydr ac yn cyfrannu at gynhesu byd-eang.


1. Pa fath o gludiant y byddwch yn ei ddefnyddio i fynd i'r ysgol bob dydd? Beth yw ffynhonnell y pŵer?

Cludiant	A ydych yn ei ddefnyddio? (Ydw neu nac ydw)	Beth sy'n ei bweru?	A yw hyn yn achosi llygredd?
Ar droed			
Beic			
Car			
Trên			
Bws			

2. Pam ydych chi'n defnyddio'r math yma o gludiant?

Dylai'r myfyrwyr ystyried ai oherwydd ei bod yn hawdd neu oherwydd nad oes unrhyw ddewis.

3. Edrychwch ar y graff isod. Mae hwn yn dangos effaith gwahanol ddulliau cludiant ar y blaned am bob cilometr y byddwch yn ei deithio.



3a. Pa fath o gludiant sy'n cael yr effaith leiaf ar y blaned?

Cerdded

3b. Pa fath o gerbyd sy'n cael yr effaith fwyaf ar y blaned?

Y car

4. Mae seiclo'n cael ychydig fwy o effaith ar y blaned na cherdded oherwydd ei fod yn defnyddio rwber ar gyfer y teiars a metelau i wneud y ffrâm mewn ffatrioedd. Pam y byddai car yn cael fwy byth o effaith? Meddyliwch am beth mae car yn ei ddefnyddio fel tanwydd a beth mae'n rhaid i geir deithio hyd-ddynt.

- *Mae'r defnyddiau y bydd ceir yn cael eu gwneud ohonynt, yn defnyddio llwyth o adnoddau naturiol*
- *Mae ceir yn rhedeg ar danwydd ffosiledig (diesel, petrol, olew) ac felly maent yn cyfrannu at allyriannau carbon deuocsid a'r effaith tŷ gwydr*
- *Mae angen ffyrdd sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar geir, sy'n defnyddio llawer iawn o adnoddau naturiol ac ynni i'w hadeiladu a'u cynnal.*

5. Edrychwch ar y byrddau arddangos yn Stryd Dwy Droed. Rhestrwch y pethau y gallen ni eu gwneud yn hytrach na defnyddio ceir i fynd o fan i fan.

Gallai hyn gynnwys:

- *Cerdded*
- *Seiclo*
- *Trên*
- *Bws*
- *Teithio llai pryd y bydd hynny'n bosib*

6. Rhestrwch 4 mantais o ddefnyddio llai o geir.

Gallai hyn gynnwys:

- *Gwell iechyd*
- *Lleihau problemau resbiradol oherwydd bod llai o lygredd*
- *Mynd yn fwy heini drwy gerdded a seiclo'n fwy*
- *Llai o ddamweiniau ar y ffyrdd*
- *Llai o lygredd*
- *Gostyngiad yn allyriannau carbon deuocsid*
- *Gostyngiad yng nghrynhoad nwyon tŷ gwydr a fyddai'n lleihau cynhesu byd-eang*
- *Llai o sŵn ceir ar y stryd*
- *Mae defnyddio cludiant cyhoeddus yn fwy cymdeithasol*

7. Wrth i chi adael Stryd Dwy Droed, byddwch yn mynd heibio i ddau gartŵn mawr. Mae'r naill ar y chwith yn dangos tref yn y dyfodol sydd wedi newid ei thechnoleg i systemau cludiant nad ydynt yn defnyddio tanwydd ffosiledig. Mae llawer iawn o dagfeydd ceir trydan o hyd, ond nid oes unrhyw lygredd yn cael ei greu. Mae'r llun ar y dde yn dangos y byd yn y dyfodol lle mae pobl wedi newid eu ffordd o fyw i ddefnyddio mwy o feiciau, llwybrau a chludiant cyhoeddus. Tynnwch fraslun o sut yr hoffech weld systemau cludiant mewn trefi yn y dyfodol. Labelwch eich diagram.

Efallai y bydd y myfyrwyr am gynnwys rheilffordd drydan ungludrog a cheir trydan yn eu brasluniau ynghyd â thacsis nad ydynt yn defnyddio tanwydd ffosiledig, llawer o hawliau tramwy gan gerddwyr, lonydd beiciau a chludiant cyhoeddus. Gellid hefyd gynnwys tyrbinau gwynt ar fryniau wrth law ac adeiladau sy'n defnyddio trydan solar a systemau dŵr poeth.